

Atodiad A



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Polisi Teithio o'r Cartref i'r Ysgol 2020 DRAFFT

CYNNWYS

TUDALEN

Rhan 1: Cyflwyniad a Chyd-destun	1
Rhan 2: Cymhwysedd – Hawl statudol	3
Rhan 3: Cymhwysedd – Trefniadau disgresiynol	6
Rhan 4: Dim cymhwysedd	7
Rhan 5: Mathau o gymorth teithio	8
Rhan 6: Y broses o wneud cais a'r broses apeliadau	10

Rhan 1: Cyflwyniad a Chyd-destun

Gofynion cyfreithiol

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ystyried anghenion teithio'r plant a'r bobl ifanc yn ei ardal ac i gyhoeddi polisi ar ei drefniadau cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol.

Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu'r gofynion ar y Cyngor o ran ei ddyletswydd i ddarparu cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol a bennwyd gan Ddeddf Addysg 1996 a hefyd ddeddfwriaeth arall, benodol i Gymru, sy'n cynnwys:

- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("y Mesur")
- Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithrediadol Teithio gan Ddysgwyr 2014 (*mae'r rhain i gael eu diweddarau gan Lywodraeth Cymru*)
- Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009
- Mesur Diogelwch ar Drafnidiaeth i Ddysgwyr (Cymru) 2011
- Côt Ymddygiad Teithio Cymru Gyfan

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("y Mesur") yn cyflwyno'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud yn benodol â darpariaethau teithio i ddysgwyr sy'n teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yng Nghymru. Lle nad yw manylion ynghylch gweithredu polisi'r Cyngor ynghylch teithio o'r cartref i'r ysgol yn cael sylw penodol yn y ddogfen bolisi hon, bydd y Cyngor yn dilyn y darpariaethau yn y Mesur ac yn Narpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithrediadol Teithio gan Ddysgwyr 2014 (*sydd i'w diweddarau gan Lywodraeth Cymru*).

Nid oes hawl gyffredinol i gymorth teithio am ddim o'r cartref i'r ysgol; o ganlyniad, cynghorir rhieni/gofalwyr yn gryf i ystyried sut byddan nhw'n sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd safle addysg neu hyfforddiant cyn gwneud cais am le yn y sefydliad dan sylw.

Byw yn ardal y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu cymorth teithio ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n byw yn ardal y Cyngor yn unig. Bernir bod dysgwr yn 'byw' yn ardal y Cyngor os yw ef/hi fel arfer yn byw ym mwrdeistref sirol Castell-nedd Port Talbot. At ddibenion y ddogfen bolisi hon, diffinnir preswylfa arferol fel 'ble mae dysgwr fel arfer yn byw, neu os yw o dan 16, ble mae'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant am y dysgwr yn byw.' Mae 'byw' yn golygu mwy nag ymweliadau achlysurol. Os nad oes gan ddysgwr breswylfa arferol, caiff ei ystyried fel rhywun sy'n arfer byw yn y man lle mae'n byw ar hyn o bryd.

Dwy Breswylfa

Pan fydd gan ddysgwr ddwy breswylfa (mwy nag un breswylfa arferol), bydd y Cyngor yn ystyried y ddwy breswylfa. Os yw'r dysgwr yn byw mewn mwy na dau le o'r fath, dim ond y ddau le agosaf at ysgol y dysgwr fydd yn gymwys.

Gall unrhyw newid i breswylfa dysgwr, gan gynnwys dwy breswylfa, effeithio ar gymhwysedd dysgwr i gael cymorth teithio. O ganlyniad, mae angen cymryd unrhyw newidiadau i breswylfa arferol dysgwr i ystyriaeth wrth benderfynu ai'r ysgol y bu'r dysgwr yn ei mynychu cyn newid cyfeiriad yw'r ysgol addas agosaf o hyd. Os bydd un o rieni/ofalwyr y dysgwr, neu'r ddau, yn symud i gyfeiriad newydd, gall ysgol wahanol ddod yn ysgol addas agosaf eu plentyn. Bydd cymhwysedd i dderbyn cymorth teithio yn cael

ei adolygu, a dim ond cymorth i'r ysgol addas agosaf fydd yn cael ei gynnig neu ei barhau, cyhyd â bod y meini prawf cymhwys ychwanegol yn cael eu bodloni.

Mae Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithrediadol Teithio gan Ddysgwyr 2014 yn nodi bod rhaid i'r Cyngor ystyried a yw hyd taith yn rhesymol. O dan ei bwerau disgrisiynol, bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am gymorth teithio i'r dysgwyr hynny sydd â dwy breswylfa, os yw'r ysgol yn ysgol addas agosaf i un o'r cyfeiriadau, ac nad yw'r ail gyfeiriad yn gymwys, ond bod darpariaeth trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol eisoes ar gael ar y llwybr (bydd hynny trwy brynu sedd sbâr).

Os bydd gan ddysgwr ddwy breswylfa arferol sydd wedi'u lleoli yn ardaloedd dau Gyngor gwahanol, bydd y ddau Gyngor yn gyfrifol am drefniadau cymorth teithio'r dysgwr pan fydd y dysgwr yn byw yn yr ardal honno.

Derbyn i'r ysgol a chymorth teithio o'r cartref i'r ysgol

Nid yw derbyn i ysgol brif ffrwd yn ardal y Cyngor o reidrwydd yn rhoi hawl i gymorth teithio. Lle mae rhiant/gofalwr yn mynegi awydd i ddewis ysgol nad yw'n ysgol addas agosaf, ystyrir bod hynny'n lleoliad a ffafrir, nad yw'n gymwys ar gyfer cymorth teithio. Fodd bynnag, os yw rhiant/gofalwr wedi methu sicrhau lle i'w plentyn yn yr ysgol addas agosaf (neu ysgol ddalgylch eu cyfeiriad cartref) bydd cymorth teithio'n cael ei ddarparu i'r ysgol addas nesaf agosaf, cyhyd â bod y meini prawf perthnasol o ran pellter wedi'u bodloni.

Nid yw derbyn i ysgol arbennig o reidrwydd yn rhoi hawl i gymorth teithio. Cynigir cymorth teithio i'r rhai lle enwyd sefydliad addysgol yn y Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig/Cynllun Datblygu Unigol, cyhyd â bod y meini prawf perthnasol o ran pellter wedi cael eu bodloni, neu bod angen yr unigolyn yn golygu bod rhaid cael cymorth i deithio.

Swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sy'n bennaf gyfrifol am benderfynu ar anghenion teithio pob dysgwr, ac maent yn dilyn arweiniad y polisi hwn. Bydd y swyddogion yn ceisio cyngor gweithwyr proffesiynol eraill perthnasol yn ôl y galw.

Cynigion cymorth teithio

Lle cynigiwyd cymorth teithio, ac mae'r cynnig hwnnw wedi cael ei dderbyn, nid oes hawl absoliwt parhaus, gan fod cynigion cymorth teithio yn destun adolygiad os bydd newid yn yr amgylchiadau a arweiniodd at y cynnig cymorth teithio gwreiddiol, e.e. os bydd preswylfa'r dysgwr yn newid, neu bod llwybr a fu'n anaddas yn dod ar gael.

Yn achos y dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, bydd cymhwysedd a chynnig cymorth teithio yn destun ailasesiad o'u hanghenion yn rheolaidd.

Rhan 2: Cymhwysedd: hawl statudol

I fod yn gymwys ar gyfer cymorth teithio am ddim o'r cartref i'r ysgol, mae'n rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

A	Rhaid bod y dysgwr yn un o breswylwyr arferol bwrdeistref sirol Castell-nedd Port Talbot
B	Rhaid bod y dysgwr yn mynychu'r ysgol addas agosaf
C	Rhaid bod y dysgwr o oed ysgol gorfodol
a naill ai D neu E	
D	Rhaid bod y dysgwr yn byw ymhellach na'r pellter cerdded statudol o'r ysgol addas agosaf
E	Rhaid bod y dysgwr yn methu cerdded y pellter cerdded statudol i'r ysgol addas agosaf oherwydd: <ul style="list-style-type: none"> • bod y llwybr yn un y barnwyd ei fod yn anaddas, neu • bod ganddynt anabled neu anhawster symudedd (yn amodol ar asesiad o'u hanghenion a/neu dystiolaeth o gyflyrau neu anawsterau gan weithwyr proffesiynol perthnasol e.e. pediatregydd)
F	Mae'r dysgwr yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal (PDG)
G	Mae ysgol wedi'i henwi ar Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig y dysgwr (y "Datganiad") neu'r Cynllun Datblygu Unigol ("CDU")

Categori D – Dysgwr **oed ysgol gynradd** sydd yma, ac mae'n byw **2 filltir** neu fwy o'r ysgol gynradd addas agosaf. Mesurir y pellter yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Mae hyn yn berthnasol i'r holl ddysgwyr oed cynradd, gan gynnwys y rhai sydd â datganiad neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

Categori E – Dysgwr **oed ysgol uwchradd** sydd yma, ac mae'n byw **3 milltir** neu fwy o'r ysgol uwchradd addas agosaf. Mesurir y pellter yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Mae hyn yn berthnasol i'r holl ddysgwyr oed uwchradd, gan gynnwys y rhai sydd â datganiad neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

Categori F – Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i fod yn rhiant corfforaethol i Blant sy'n Derbyn Gofal (PDG). Plentyn sy'n Derbyn Gofal yw plentyn sydd yng ngofal yr awdurdod lleol, neu sy'n derbyn llety gan awdurdod lleol, o dan gyfrifoldebau gofal plant gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol. Wrth benderfynu ar hawliau teithio o'r cartref i'r ysgol Plentyn sy'n Derbyn Gofal, bydd y meini prawf oedran a phellter yn berthnasol. Fodd bynnag, ni fydd y meini prawf ysgol addas agosaf yn berthnasol, gan y bydd hynny'n caniatáu i'r Cyngor sicrhau bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu lleoli yn ôl eu hanghenion a'u hamgylchiadau unigol, gan darfu cyn lleied â phosibl ar eu sefyllfa; sicrhau dilyniant o ran addysg gyda ffrindiau neu siblingiaid, ochr yn ochr â chynnal llesiant y plentyn. Bydd cymorth teithio a ddarperir ar gyfer PDG yn cael ei ariannu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn dibynnu ar anghenion teithio'r dysgwr, defnyddir trafndiaeth gyhoeddus lle bo hynny'n briodol.

Categori G – Bydd y Cyngor yn trefnu asesiad o angen dysgwr, er mwyn penderfynu a oes angen cymorth teithio i hwyluso mynediad i'r ysgol. Bydd yr asesiad hwn yn nodi'r math/lefel o gymorth teithio y gall fod angen ei ddarparu. Bydd y meini prawf oed a phellter yn berthnasol, oni bai bod angen y dysgwr yn pennu na ddylid cymhwyso'r meini prawf. Bydd yr hawl yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

Ni fydd rhwymedigaeth ar y Cyngor i ddarparu cymorth teithio os yw rhieni/gofalwyr wedi penderfynu anfon eu plentyn i sefydliad sydd ymhellach i ffwrdd na'r ddarpariaeth arbenigol y mae'r Cyngor wedi nodi ei bod yn addas ar gyfer anghenion y dysgwr. Mae gan rieni/ofalwyr hawl i benderfynu pa sefydliad maent am i'w plentyn ei fynychu, ond at ddibenion y polisi hwn, bydd y dewis hwnnw'n cael ei ystyried yn lleoliad a ffafrir.

Os yw dysgwr yn derbyn y lwfans perthnasol i gymhwyso ar gyfer y Cynllun Symudedd ac mae'r rhiant/gofalwr yn cael cerbyd trwy'r Cynllun Symudedd, mae'r Cyngor yn disgwyl i'r cerbyd hwnnw gael ei ddefnyddio er budd y dysgwr sydd ag anabledd, a bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio i fynd â'r dysgwr i'r ysgol ac oddi yno. Gall y Cyngor gynnig cymorth i deithio i'r ysgol ac oddi yno. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd pob achos yn cael ei ystyried ar sail ei rinweddau ei hun, ac fel arfer cynigir lwfans milltiroedd i'r rhieni.

Diffiniadau

Oed ysgol gorfodol:

Bydd dysgwr sy'n cyrraedd pump oed yn dechrau yn yr ysgol ar ddechrau'r tymor cyntaf ar ôl pumed pen-blwydd y dysgwr, a bydd ei (h)addysg yn dod i ben yn un ar bymtheg oed.

Preswylfa Arferol:

Ble mae dysgwr yn byw fel arfer neu ble mae'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant am y dysgwr yn byw. Mae byw yn golygu mwy nag ymweliadau achlysurol. O ran dwy breswylfa, dim ond trefniadau byw parhaol a sefydlwyd fydd yn cael eu hystyried, e.e. dysgwr sy'n byw 2 noson o bob wythnos ysgol gydag un rhiant a 3 noson o bob wythnos ysgol gyda'r rhiant arall, neu am yn ail wythnos gyda'r ddau riant yn eu tro. Nid yw'n berthnasol lle bydd dysgwr yn treulio'r penwythnos gyda rhiant gwahanol i'r lle mae'r dysgwr yn byw yn ystod yr wythnos ysgol.

Ysgol addas agosaf:

Ysgol brif ffrwd Gymraeg neu Saesneg ei chyfrwng sy'n ysgol addas agosaf i gyfeiriad cartref y dysgwr, gyda lleoedd ar gael, sy'n darparu addysg briodol ar gyfer oed, gallu a medrau'r dysgwr, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw angen dysgu ychwanegol a all fod gan y dysgwr. Hon hefyd fel arfer fydd yr ysgol 'ddynodedig' a enwyd ar gyfer cyfeiriad cartref y dysgwr.

Ysgol Enwadol (Ffydd) sy'n ysgol ffydd agosaf i gyfeiriad cartref y dysgwr, gan gymryd i ystyriaeth yr holl ysgolion perthnasol.

Ysgol arbennig neu ddarpariaeth arbenigol sy'n ysgol arbennig neu ddarpariaeth arbenigol briodol agosaf sy'n gallu diwallu anghenion y dysgwr neu ysgol arbennig neu ddarpariaeth arbenigol a enwyd ar ddatganiad/CDU dysgwr.

Cyfrifoldeb y Cyngor yw penderfynu ar yr ysgol addas agosaf, wrth ystyried y cyfeiriad cartref a gofrestrwyd gan y rhiant/gofalwr gyda'u dewis ysgol.

Pan fydd rhiant/gofalwr yn dewis ysgol wahanol i'r ysgol addas agosaf, er bod yr ysgol agosaf yn gallu diwallu anghenion y dysgwr, bernir mai lleoliad a ffafrir sydd yma, ac ni fydd yn gymwys ar gyfer cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol (oni bai bod angen penodol o dan amgylchiadau eithriadol ac yn destun asesiad o'r angen).

Os nad oes modd i ddysgwr sicrhau lle yn yr ysgol addas agosaf, ni fydd cymorth teithio am ddim yn cael ei ddarparu ond os bernir bod yr ysgol arall yn cael ei hystyried yn un nesaf agosaf i'r cyfeiriad cartref ac mae'r pellter yn fwy na'r pellter cerdded statudol neu mae'r llwybr yn anaddas.

Pellter cerdded statudol:

- Dwy filltir yn achos dysgwyr oed cynradd
- Tair milltir yn achos dysgwyr oed uwchradd

Y pellter cerdded statudol yw'r trothwy sy'n pennu ai'r Cyngor neu riant/ofalwr y dysgwr sy'n gyfrifol am y teithio i'r ysgol ac oddi yno. Nid yw hynny'n golygu bod rhaid i ddysgwr gerdded y pellter dan sylw, ond cyfrifoldeb rhieni/gofalwyr sy'n byw'n nes na'r pellter cymhwys yw penderfynu sut bydd eu plentyn/plant yn mynd i'r ysgol ac yn dod oddi yno.

Pellter cerdded byrraf sydd ar gael:

Wrth fesur y pellter teithio, nid o reidrwydd dyna'r pellter byrraf ar y ffordd. Mae'n cael ei fesur yn ôl y llwybr byrraf y gall dysgwr, o gael ei hebrwng yn ôl y galw, gerdded yn rhesymol o ddiogel. Gall y llwybr a fesurir gynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffyl a llwybrau eraill.

Mesurir y pellter cerdded o'r fan lle mae ffin y cartref yn cwrdd â'r briffordd gyhoeddus, e.e. o ben y rhodfa neu'r lôn breifat hyd at y gât mynediad cerddwyr agosaf i'r ysgol. Efallai nad prif gât yr ysgol fydd hon, ond gall fod yn bwynt mynediad agosaf.

Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i fesur pellterau a sicrhau cywirdeb.

Llwybr cerdded anaddas/addas:

Bernir bod llwybr yn anaddas os na ellir disgwyl yn rhesymol i ddysgwr gerdded heb gwmni neu gyda hebryngwr yn ôl y galw, yn rhesymol o ddiogel, ac nid oes llwybr arall addas yn bodoli o dan y pellter cerdded statudol.

Bernir bod llwybr yn addas os yw'n ddiogel (i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol) i ddysgwr heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y llwybr heb gwmni neu gyda hebryngwr, os bydd oed a lefel dealltwriaeth y dysgwr yn galw am hynny. Bydd y Cyngor yn cynnal asesiadau manwl i bennu a yw llwybr yn addas neu'n anaddas ar gyfer cerdded.

Diwrnod ysgol:

Diwrnod pryd mae'r ysgol yn weithredol ac mae trafniadaeth o'r cartref i'r ysgol yn cael ei darparu ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol yn unig. Nid oes cymorth teithio ar gael ar gyfer unrhyw deithio yn ystod y diwrnod ysgol rhwng manau perthnasol neu wahanol safleoedd.

Hebrwng:

Cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw gwneud trefniadau addas i sicrhau bod eu plentyn yn cael ei hebrwng ar lwybrau cerdded i'r ysgol ac oddi yno, os bydd y rhiant/gofalwr yn barnu bod oed, gallu a lefelau dealltwriaeth y dysgwr yn golygu bod angen hynny. Ni fydd y Cyngor yn darparu cymorth teithio dim ond oherwydd bod y rhiant/gofalwr heb wneud y cyfryw drefniadau.

Safbwynt cyffredinol y Cyngor yw bod disgwyl i rieni/ofalwyr fynd ati i sicrhau bod eu plentyn/plant yn cael eu hebrwng i'r ysgol ac oddi yno, ochr yn ochr ag ymrwymadau eraill sy'n cynnwys mynd i'r gwaith a chasglu sibliogiaid eraill. Bydd angen i honiadau ynghylch amgylchiadau eithriadol gael eu cefnogi gan dystiolaeth berthnasol, er nad yw cynhyrchu tystiolaeth yn warant o gael cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol, a bydd pob achos yn cael ei asesu'n unigol.

Lleoliad a ffafir:

Gall rhiant/gofalwr fynegi awydd i ddewis ysgol benodol nad yw'n ysgol addas agosaf o ran darpariaeth addysgol, iaith, ffydd neu ddarpariaeth angen addysgol arbennig. Bernir mai lleoliad a ffafir yw hwn.

Os bydd rhiant/gofalwr yn ymarfer dewis rhiant wrth benderfynu pa ysgol mae eu plentyn yn mynd iddi, ac nid yr ysgol a ddewiswyd yw'r ysgol addas agosaf, ni fydd hawl gan y dysgwr i gael cymorth teithio.

Rhan 3: Cymhwysedd: Trefniadau disgresiynol

Lle nad oes dyletswydd ar y Cyngor i wneud trefniadau teithio, mae ganddo'r pŵer i ddarparu cymorth disgresiynol.

O dan ei bwerau disgresiynol mae'r Cyngor wedi gwneud y trefniadau canlynol:

Addysg Gymraeg

Bydd cymorth teithio am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu os yw'r dysgwr yn mynychu'r ysgol gynradd gymunedol neu'r ysgol uwchradd Gymraeg agosaf ac mae'r meini prawf pellter wedi cael eu bodloni (**2 filltir** neu fwy yn achos dysgwyr oed cynradd a **3 milltir** neu fwy yn achos dysgwyr oed uwchradd), neu os nad oes llwybr cerdded ar gael.

Addysg Enwadol (Ffydd)

Bydd cymorth teithio am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu os yw'r dysgwr yn mynychu'r ysgol gynradd neu uwchradd Ffydd agosaf (yn unol â'u dewis enwad crefyddol) ac mae'r meini prawf pellter wedi cael eu bodloni (**2 filltir** neu fwy yn achos dysgwyr oed cynradd a **3 milltir** neu fwy yn achos dysgwyr oed uwchradd), neu os nad oes llwybr cerdded ar gael.

Cymorth teithio ADY/AAA ar gyfer pobl ifanc 16 oed a throsodd

Mae hawl gan berson ifanc i wneud cais am gymorth teithio **os bodlonir** yr holl amodau sy'n dilyn:

- Rhaid eu bod yn 16 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol pan fydd y cwrs yn cychwyn
- Rhaid eu bod yn mynychu darpariaeth arbenigol yn amser llawn
- Rhaid eu bod yn mynychu'r ddarpariaeth arbenigol briodol agosaf, wedi cymryd i ystyriaeth anghenion y person ifanc a'r llwybr astudio a ddewiswyd*
- Rhaid i'r pellter o'r cartref i'r ddarpariaeth arbenigol fod yn fwy na thair milltir.
- Mae gan y person ifanc ddatganiad o anghenion addysgol arbennig/Cynllun Datblygu Unigol o hyd, ac mae'r angen am gymorth teithio ôl-16 wedi'i nodi'n benodol yn y cynllun pontio.

*Bydd y Cyngor yn asesu a yw sefydliad yn darparu ystod resymol o gyrsiau sy'n addas ar gyfer galluoedd, medrau a gofynion y myfyriwr unigol.

Cymorth teithio ADY/AAA ar gyfer dysgwyr ifanc o dan 5 oed

Mae hawl gan riant/ofalwr dysgwyr oed cyn-ysgol i wneud cais am gymorth teithio **os bodlonir** pob un o'r amodau canlynol:

- Rhaid eu bod nhw o dan oed ysgol gorfodol, sef 5 oed
- Rhaid eu bod nhw'n mynychu darpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar
- Rhaid eu bod nhw'n mynychu'r ganolfan asesu arbenigol agosaf sy'n briodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar
- Rhaid i'r pellter o'r cartref i'r ddarpariaeth arbenigol fod yn fwy na dwy filltir
- Rhaid i'r dysgwr fod yng nghanol asesiad at ddibenion llunio datganiad o anghenion addysgol arbennig/Cynllun Datblygu Unigol

Addysg ddwyieithog

Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ysgolion dwyieithog, ac ni wneir trefniadau teithio disgrisiynol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn mynychu eu hysgol addas agosaf oherwydd eu bod yn ffafrio addysg ddwyieithog. Dim ond dewisiadau cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg fydd yn arwain at hawl i gymorth teithio o dan y polisi hwn. Ym mhob achos, penderfynir ar gymhwysedd i gael cymorth teithio yn ôl meini prawf yr ysgol addas agosaf.

Dysgwyr oed meithrin

Nid oes dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu cymorth teithio i ddysgwyr o dan 5 oed. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn rhoi cyfle i rieni/ofalwyr brynu sedd ar gyfer eu plentyn ar lwybr teithio o'r cartref i'r ysgol sydd eisoes yn bodoli os bodlonwyd y meini prawf pellter neu os nad oes llwybr cerdded ar gael. Ni fydd y cynnig hwn ar gael ond os oes cynorthwy-ydd teithwyr eisoes ar y llwybr teithio er mwyn sicrhau bod dysgwyr ifanc yn cael gofal priodol wrth deithio i'r ysgol neu oddi yno (sesiynau meithrin hanner diwrnod yn unig mae dysgwyr meithrin yn eu mynychu). Codir tâl o £390 fesul blwyddyn ysgol am y gwasanaeth hwn, a thâl pro-rata o £195 am yr hanner diwrnodau.

Pobl ifanc 16 oed a throsodd

Nid oes dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu cymorth teithio i'r rhai sy'n hŷn nag oed addysg orfodol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn rhoi cyfle i ddysgwyr o'r fath brynu sedd ar lwybr teithio o'r cartref i'r ysgol sydd eisoes yn bodoli os bodlonwyd y meini prawf pellter neu os nad oes llwybr cerdded ar gael. Codir tâl o £390 fesul blwyddyn ysgol am y gwasanaeth hwn.

Dewis Rhieni

Mae hawl gan Rieni/Ofalwyr i nodi eu dewis o ran yr ysgol yr hoffent i'w plentyn fynd iddi. Lle bo modd, bydd Adain Derbyniadau Ysgol y Cyngor yn derbyn dewis y rhieni, ond mae'n bosibl nad yr ysgol a ffafrir gan riant/ofalwr fydd yr ysgol addas agosaf. Os nad yw dysgwr, trwy ddewis, yn mynychu'r ysgol addas agosaf, ni fydd hawl i dderbyn cymorth teithio am ddim o'r cartref i'r ysgol. Mae hynny hefyd yn berthnasol wrth ddewis ysgol yn ôl iaith neu enwad a ffafrir, os nad yr ysgol honno yw'r ysgol addas agosaf, o ran darpariaeth iaith neu enwad, i'r cyfeiriad cartref.

Amgylchiadau eraill a eithrir

Ni chynigir cymorth teithio i alluogi dysgwyr i fynychu darpariaeth ddi-fwlch, clybiau brecwast, gweithgareddau allgyrsiol nac unrhyw ddarpariaeth arall sy'n bodoli y tu allan i oriau ysgol arferol.

Ni ddarperir cymorth teithio i unrhyw safle heblaw prif gampws yr ysgol, ac ni ddarperir cymorth teithio ar gyfer rhaglenni undydd y tu allan i'r coleg, profiad gwaith ac ati.

Rhan 5: Mathau o gymorth teithio

Bydd y Cyngor yn ffafrio dulliau teithio amgylcheddol gynaliadwy ac yn hyrwyddo'r opsiynau hynny sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i amrywio'r cynnig ar unrhyw adeg er mwyn sicrhau ei fod yn gost-effeithiol.

Gall y mathau o gymorth teithio a ddarperir gynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu iddynt:

- lwfans beicio
- tocyn bws ar gyfer bysiau cyhoeddus
- lwfans milltiroedd i rieni sy'n defnyddio'u cerbyd eu hunain
- cerbyd penodol ar gyfer trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol
- cerbyd arbenigol ar gyfer y rhai sydd ag anabledd
- cynorthwy-ydd teithwyr
- hyfforddiant teithio annibynnol i alluogi'r dysgwr i deithio'n annibynnol yn ôl ac ymlaen i'r lleoliad addysg neu hyfforddiant

Mewn achosion cymwys, darperir cymorth teithio ar gyfer un daith yn ôl ac ymlaen fesul diwrnod ysgol, i gyrraedd yr ysgol cyn dechrau'r diwrnod ysgol arferol a gadael yr ysgol ar ôl i'r diwrnod ysgol arferol ddod i ben, gyda man casglu/gollwng wrth gyfeiriad cartref y dysgwr, neu'n agos ato.

Bydd y Cyngor yn darparu trafndiaeth o fan rhesymol agos at gartref y dysgwr i fan rhesymol agos at ysgol y dysgwr. Yn dibynnu ar eu hoed a'u gallu, gall fod gofyn i ddysgwyr gerdded i fan casglu/gollwng canolog, hyd at bellter o filltir i ffwrdd.

Lwfans beicio -

Lle mae hawl statudol i gymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yn bodoli, neu mae'r Cyngor wedi ymarfer ei ddisgresiwn, gall y Cyngor gynnig lwfans beicio. Lle rhoddwyd lwfans beicio, cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw sicrhau bod eu plentyn yn alluog i feicio'n ddiogel i'r ysgol. Bydd angen i rieni/ofalwyr benderfynu sut bydd eu plentyn yn cyrraedd yr ysgol pan na all feicio, e.e. mewn tywydd gwael.

Os cytunwyd ar lwfans beicio, byddai'r gyfradd yn cyfateb i ddwy daith yn ôl ac ymlaen y dydd, ar sail cyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC).

Tocyn bws ar gyfer bysiau cyhoeddus -

Mae Tocyn Bws Disgyblion Castell-nedd Port Talbot yn darparu mynediad i'r rhwydwaith bysiau cyhoeddus ar gyfer teithiau yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yn ystod oriau ysgol arferol. O dan rai amgylchiadau, gyda chytundeb ysgrifenedig, gellir eu defnyddio y tu allan i'r oriau ysgol arferol. Ceir telerau ac amodau llawn gyda'r tocyn bws.

Lwfans milltiroedd rhieni -

Lle mae hawl statudol i gymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yn bodoli, neu mae'r Cyngor wedi ymarfer ei ddisgresiwn, o dan rai amgylchiadau gall y Cyngor gynnig lwfans milltiroedd i rieni os yw rhiant/gofalwr dysgwr yn cludo'r dysgwr eu hunain. Bydd unrhyw gytundeb yn amodol ar sicrhau bod gan y rhiant/gofalwr drwydded yrru, MOT (os yw hynny'n berthnasol) a thystiolaeth o yswiriant priodol (naill ai defnydd busnes dosbarth 1 neu lythyr gan eu hyswirwyr yn dweud nad oes angen defnydd busnes dosbarth 1 i gludo'u plentyn am lwfans).

Os cytunwyd ar lwfans milltiroedd rhieni gyda'r rhiant/gofalwr, y gyfradd fyddai dwy daith

yn ôl ac ymlaen fesul diwrnod, ar sail cyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC).

Cerbydau penodol trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol a cherbydau arbenigol ar gyfer y rhai sydd ag ADY/AAA -

Bydd y math o gerbyd sy'n cael ei gaffael ar gyfer unrhyw lwybr trafndiaeth yn cael ei benderfynu yn ôl nifer y dysgwyr a'u hanghenion unigol.

Cynigir lle i'r dysgwyr ar gerbyd a rennir o'r cartref i'r ysgol. Gall y cerbyd fod yn goets, yn fws mini, neu'n gar. Bydd yr holl gerbydau'n addas ar gyfer y daith a'r math o ddysgwyr sy'n teithio ynddynt, gan gynnwys addasiadau priodol ar gyfer dysgwyr ag anabledd.

Mae'r Cyngor yn hyrwyddo rhannu cerbydau i sicrhau cost-effeithiolrwydd cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd dysgwyr o wahanol ysgolion yn rhannu'r un cerbyd trafndiaeth, e.e. dysgwyr sy'n teithio i ysgolion Cymraeg a Saesneg yn yr un ardal ddaearyddol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys dysgwyr oed gwahanol yn rhannu'r un cerbyd.

Ni fydd cerbydau'n cael eu darparu ar gyfer un person yn unig ond o dan amgylchiadau cwbl eithriadol, a Grŵp Trafndiaeth y Cyngor fydd yn penderfynu ynghylch awdurdodi cerbyd ar gyfer un person. Ni chaniateir hynny ond pan fydd digon o dystiolaeth i gefnogi cais am sicrhau bod dysgwr yn cael bod yn unig ddefnyddiwr cerbyd trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol.

Nid yw'r Cyngor yn cynnal ei gerbydlu trafndiaeth ei hun, felly darparwr trafndiaeth dan gontract fydd yn gyfrifol am yr holl lwybrau. Bydd maint y cerbyd dan sylw yn dibynnu ar nifer y dysgwyr sydd â hawl i gymorth teithio ar y llwybr.

Darparu cynorthwy-ydd teithwyr -

Ni fydd cynorthwywyr teithwyr yn bresennol ar gerbydau sy'n cludo dysgwyr yn ôl ac ymlaen i'r ysgol ond lle mae'r angen am gynorthwy-ydd teithwyr yn gysylltiedig ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd dysgwr, neu o dan amgylchiadau eraill lle mae angen goruchwyliaeth ar y cyfryw ddysgwyr wrth deithio.

Hyfforddiant teithio annibynnol -

Cynigir yr hyfforddiant hwn i ddysgwyr ag angen dysgu ychwanegol yr aseswyd eu bod yn addas i'w hyfforddi i annog teithio'n annibynnol. Bydd disgwyl i ddysgwyr yr aseswyd eu bod yn addas ar gyfer hyfforddiant o'r fath gymryd rhan ynddo. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus, bydd y dysgwr yn teithio yn ôl ac ymlaen yn annibynnol i'r lleoliad dysgu, e.e. trwy docyn bws cyhoeddus.

Trefniadau Disgresiynol: Cynllun Seddau Sbâr

Blaenoriaeth y Cyngor, yn y lle cyntaf, wrth ddyrannu seddau ar gerbydau contract fydd darparu lle ar gyfer y dysgwyr sy'n gymwys i dderbyn cymorth teithio. Lle mae seddau sbâr ar gael, bydd y Cyngor, o dan ei drefniadau disgresiynol, yn cynnig seddau ar werth i ddysgwyr nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth teithio. Os oes un ar gael, gellir prynu sedd sbâr am £390 fesul blwyddyn ysgol.

Gall y Cyngor neu'r rhiant/gofalwr derfynu trefniant o'r fath trwy roi rhybudd ynghylch hynny. Bydd y trefniant yn dod i ben ddechrau'r cyfnod ysgol nesaf wedi'r cyfnod nesaf o wyliau hanner tymor neu ddiwedd tymor. Er mwyn darparu lle ar gyfer dysgwr sydd â hawl i gymorth teithio, gall fod angen newid penderfyniad i werthu sedd sbâr.

Gwneud cais am gymorth i deithio o'r cartref i'r ysgol

Dylai rhieni/gofalwyr sy'n credu bod hawl gan eu plentyn i dderbyn cymorth i deithio i'r ysgol ac oddi yno lenwi'r ffurflen gais ar-lein, sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Ar ôl cwblhau'r cais ar-lein, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn manylion amserau a lleoliadau casglu yn ystod gwyliau'r haf ar gyfer cychwyn ym mis Medi, neu cyn gynted â phosibl yn achos ceisiadau a ddaw i law yn ystod y flwyddyn ysgol.

Dylai rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol y bydd cais hwyr yn achosi oedi wrth ddyrannu trafndiaeth, ac y gallai olygu colli dyraniad ar ddechrau'r flwyddyn ysgol neu ddechrau tymor newydd.

Côd Ymddygiad Teithio

Mae 'Côd Ymddygiad Teithio Cymru Gyfan' (Côd Teithio) yn nodi cyfrifoldebau'r dysgwyr a'r safonau ymddygiad sy'n ofynnol ganddynt wrth deithio rhwng eu cartref a'r ysgol. Mae'r Cyngor yn disgwyl i bob dysgwr ymddwyn mewn modd ystyriol wrth deithio ar drafndiaeth sydd wedi cael ei darparu neu ei threfnu gan y Cyngor.

Yn achos dysgwyr sydd ag angen dysgu ychwanegol, lle gall problem ymddygiad fod wedi codi o ganlyniad i'r angen dysgu ychwanegol, edrychir ar bob ateb posibl, e.e. technegau tynnu sylw, cerbydau sy'n cynnwys niferoedd llai.

Cyfrifoldeb rhieni a threfniadau teithio o'r cartref i'r ysgol

Rhieni/gofalwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn/plant yn cyrraedd y man casglu ar ddechrau'r diwrnod ysgol a'u bod yn mynd ar y ddarpariaeth drafndiaeth yn ddiogel. Nhw hefyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod oedolyn cyfrifol yno i gwrdd â'r dysgwr ar ddiwedd y diwrnod ysgol, neu bod eu plentyn yn gallu cyrraedd adref ryw ffordd arall.

Bydd dysgwyr bregus megis dysgwyr ifanc iawn neu rai dysgwyr sydd ag angen dysgu ychwanegol sydd heb neb i gwrdd â nhw wrth gyrraedd eu cyrchfan yn cael eu cadw ar y ddarpariaeth drafndiaeth er mwyn peidio ag achosi oedi i ddysgwyr eraill ar y llwybr. Bydd y Cyngor yn cael ei hysbysu gan y gyrrwr, a gwneir trefniadau i'r rhiant/gofalwr gasglu'r dysgwr ar ddiwedd y daith. Os na ellir cysylltu â rhiant/gofalwr, cysylltir â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am gymorth.

Cyfrifoldeb yr Ysgol a threfniadau teithio o'r cartref i'r ysgol

Mae cyfrifoldeb statudol ar Benaethiaid ysgol i ofyn bod disgyblion yn cydymffurfio â'r Côd Ymddygiad Teithio, ac yn ymgorffori hynny, os yw'n briodol, i Bolisi Ymddygiad yr Ysgol. Mae gan benaethiaid bŵer i gosbi dysgwyr sydd wedi torri'r Côd Ymddygiad Teithio y tu allan i safle'r ysgol – er enghraifft, pan fydd dysgwyr wedi gadael safle'r ysgol a heb eu goruchwylio gan staff addysgu (er enghraifft, wrth gerdded rhwng y cartref a'r ysgol ac wrth ddefnyddio trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol a ddarparwyd gan y Cyngor).

Tynnu cymorth teithio yn ôl

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu cymorth teithio yn ôl os bydd dysgwr yn peidio â bod yn gymwys neu os darganfyddir bod y cymorth teithio wedi cael ei roi trwy gamgymeriad. Os yw cymorth teithio i gael ei dynnu'n ôl bydd y Cyngor yn rhoi rhybudd ynghylch hynny. Bydd y trefniant yn dod i ben ar ddechrau'r cyfnod ysgol nesaf wedi'r gwyliau hanner tymor neu ddiwedd tymor nesaf.

Lle canfyddir bod y rhiant/gofalwr wedi gwneud cais twyllodrus am gymorth teithio, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu'r cymorth teithio yn ôl ar unwaith ac i adennill unrhyw gostau.

Apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod darparu cymorth i deithio o'r cartref i'r ysgol

Lle gwnaed cais am gymorth teithio a'i wrthod yn y lle cyntaf, bydd gan y rhiant/gofalwr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

Gellir apelio ar y seiliau canlynol yn unig:

- nid yw'r Cyngor wedi cadw at y polisi'n gywir a/neu
- gall yr apelydd gyfeirio at amgylchiadau arbennig/eithriadol y mae'n credu ddylai gael eu hystyried

Os bydd rhiant/gofalwr yn credu bod modd cyflwyno achos yng nghyswllt y naill neu'r llall o'r meini prawf hyn, neu'r ddau, bydd y weithdrefn ganlynol yn berthnasol:

Cam un: Adolygu gan Grŵp Trafnidiaeth y Cyngor

Gwahoddir y rhiant/gofalwr i gyflwyno Ffurflen Apêl Cam Un yn amlinellu'r sail ar gyfer yr apêl, ac ar yr un pryd gyflwyno'r holl dystiolaeth gefnogi sy'n dangos y sail ar gyfer yr apêl.

Bydd Grŵp Trafnidiaeth y Cyngor yn ystyried yr apêl, ac yna'n ysgrifennu at y rhiant/gofalwr i roi gwybod beth yw eu penderfyniad.

Cam dau: Adolygu gan Banel Apêl

Gwahoddir y rhiant/gofalwr i gyflwyno Ffurflen Apêl Cam Dau yn amlinellu'r sail ar gyfer dymuno i symud y mater ymlaen i gam dau ar ôl derbyn y llythyr gan Grŵp Trafnidiaeth y Cyngor yn rhoi gwybod iddynt bod eu cais am gymorth teithio wedi cael ei wrthod yng Ngham Un.

Bydd yr apêl yn cael ei chlywed gan y Panel Apeliadau Teithio o'r Cartref i'r Ysgol. Rhaid i'r Panel Apeliadau Teithio o'r Cartref i'r Ysgol gynnwys tri aelod panel annibynnol nad ydynt wedi bod yn rhan o unrhyw broses o wneud penderfyniad hyd yma. Bydd y panel yn cael ei gynorthwyo gan aelod o'r Gwasanaethau Cyfreithiol, fydd yn gweithredu fel clerck.

Bydd y rhiant/gofalwr yn cael ei hysbysu ynghylch y gwrandawriad apêl a byddant hwy a phob aelod o'r panel apeliadau yn cael copi o'r holl dystiolaeth o'r Adran Teithio o'r Cartref i'r Ysgol sy'n dangos y rheswm pam y gwrthodwyd y cais am gymorth teithio. Bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cynnwys tystiolaeth o Gam Un o'r broses apeliadau.

Gwahoddir y rhiant/gofalwr i gyflwyno sylwadau yn bersonol gerbron y Panel Teithio o'r Cartref i'r Ysgol, neu i ddarparu datganiad ysgrifenedig i'w ystyried gan y panel os nad ydynt am fod yn bresennol. Gall y rhiant/gofalwr gael cwmni rhywun arall i'w cynorthwyo yn y gwrandawriad apêl.

Bydd penderfyniad y Panel Apeliadau Teithio o'r Cartref i'r Ysgol yn rhwymo'r rhiant/gofalwr a'r Adran Teithio o'r Cartref i'r Ysgol. Fodd bynnag, fel yn achos pob cymorth teithio, gall hynny gael ei adolygu yng ngoleuni unrhyw newid pwysig i'r amgylchiadau.

Gellir gwneud apeliadau pellach dim ond os bydd newid pwysig i'w ystyried yn yr amgylchiadau. Os yw hynny'n digwydd, dylid cyflwyno cais newydd am gymorth teithio yn y lle cyntaf.

Os nad yw'r rhiant/gofalwr yn fodlon ar sut cynhaliwyd y broses apeliadau, mae hawl ganddynt i gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion ysgrifenedig ynghylch sut cynhaliwyd apêl, nid i'r penderfyniad. I gael rhagor o fanylion, ewch i'w gwefan: www.ombudsman-wales.org.uk

Gall y rhiant/gofalwr wneud cais hefyd am Adolygiad Barnwrol os ydynt am herio cyfreithlondeb penderfyniad neu gam gweithredu oedd yn rhan o'r weithdrefn apeliadau.

Mae manylion llawn y broses apeliadau a'r terfynau amser cysylltiedig ar gael o'r cyfeiriad canlynol:

*Apeliadau Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol,
Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes,
Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot, SA13 1PJ
Neu drwy e-bost i: education@npt.gov.uk*